

## Camau ac amcanion llesiant drafft BGC Caerdydd (2023-28)

Cyngor Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

21<sup>ain</sup> Medi 2022

Diolch am rannu eich camau ac amcanion llesiant drafft gyda ni ar 21<sup>ain</sup> Gorffennaf 2022.

Drwy'r cyfnod ymgynghori statudol o 14 wythnos gyda'n swyddfa, rydym wedi cynnal trafodaeth eang ar y dulliau o weithio ac yn croesawu eich myfyrdod arnynt. Fe wnaethom gytuno pa mor bwysig yr oedd hi i'r BGC fod yn hyderus ynglŷn â'r modd y mae'r dulliau o weithio'n cael eu cymhwyso, a thrafodwyd sut y gallech sicrhau bod grwpiau cyflawni'r BGC yn meddwl, yn gweithredu ac yn cymhwyso'r dulliau o weithio ar y lefel ronynnaidd.

Gan gadw hyn mewn golwg rydym wedi gosod ein cyngor drafft i chi yng nghyd-destun y 5 dull o weithio.

### Cydweithredu

O'n trafodaethau, mae'n wych clywed sut mae cydweithredu yn helpu i yrru rhywfaint o'ch dull o weithio yng Nghaerdydd, yn enwedig gyda BGC Bro Morgannwg, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac aelod-sefydliadau eich BGC. Mae'n amlwg pa mor bwysig yw cydweithredu i'ch BGC i'ch helpu i gyflawni'r 'fantais gydweithredol' ac ysgogi newid yn eich ardal.

Mae llawer o'r blaenoriaethau yr ydych wedi'u rhannu gyda ni yn uchelgeisiol ac yn eang eu cwmpas. Er enghraifft, *'Gweithio i sicrhau bod llais, anghenion a blaenoriaethau pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu clywed a'u hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd...'*

Bydd camau fel y rhain yn gofyn am ymagwedd partneriaeth gref sy'n mynd y tu hwnt i bartneriaid y BGC. Gan adeiladu ar eich ymagwedd gydweithredol hyd yn hyn, rydym yn eich annog i ystyried gyda phwy arall y gallai fod angen i chi gydweithio i ddeall a mynd i'r afael yn well â'r heriau yn eich ardal, megis cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol, y byd academiaidd ac ati.

Bydd hefyd yn werth nodi unrhyw opsiynau cydweithredol a fyddai'n helpu i dorri ar draws ffiniau sefydliadol (a sectorau o bosibl) ac ysgogi newid. Er enghraifft, cyd-leoli staff, chwalu strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau a chyfuno adnoddau.

Rydym hefyd yn eich annog i feddwl am rôl y BGC parthed hwyluso'r sgysiau eang, mwy o faint y gallai fod eu hangen ar gyfer rhai o'ch amcanion. Mae hyn er mwyn helpu i sicrhau nad yw'r gwaith yn cael ei gyflawni mewn seilos a'i fod yn ceisio dwyn pobl ynghyd i sicrhau cydgysylltu.

### Integreiddio

Rydym wedi trafod nifer y blaenoriaethau a restrwyd gennych. Fel y nodwyd, ein barn gychwynnol oedd bod y rhestr y gwnaethoch ei rhannu gyda ni (57 o flaenoriaethau) yn niferus, yn arbennig gan fod llawer o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill yn canolbwyntio ar lai o gamau. Drwy ein trafodaethau, gwnaethoch amlinellu eich myfyrdod a'ch rhesymu ynglŷn â'r blaenoriaethau yr ydych wedi'u nodi, a'ch hyder ynddynt fel y meysydd ffocws cywir ar gyfer eich ardal.

Er bod cydbwysedd da rhwng camau gweithredu arfaethedig sydd yn eang, yn benodol neu'n rhywle yn y canol, mae rhai o'r camau arfaethedig ar hyn o bryd yn darllen mwy fel amcanion, ac mae'n dal i fod yn aneglur beth yw'r 'cam gweithredu' penodol neu beth y gallai fod. Er enghraifft, *'Gwella gofal diwedd oes i bob oed'* ac *'Anelu at ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050'*.

Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi y byddwch yn gweithio ar y manylion hyn ac mae'n gadarnhaol gweld rhai o'r camau yn eich cynllun drafft a'r effaith posibl y gallent ei gael. Er

enghraifft, y cam i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn sgil y pandemig a'r argyfwng costau byw presennol, sy'n cynnwys *'Gwella nifer y plant sy'n cael brechiad /yn cael eu himiwneiddio yng Nghaerdydd a'r Fro, yn enwedig yn y cymunedau mwyaf difreintiedig/grwpiau economaidd-gymdeithasol, trwy gyflwyno ymagwedd a arweinir gan ddata, gyda thargedau'* a *'Gwella'r nifer sy'n ymgymryd â sgrinio'r coluddyn'*.

Mae'r Ddeddf yn nodi y dylai amcanion llesiant gael eu hintegreiddio, h.y. dylech ystyried sut mae amcan yn effeithio, neu sut y gallai effeithio ar bob un o'r nodau llesiant. O ystyried ehangder y camau gweithredu yr ydych wedi'u hamlinellu, byddai'n ddefnyddiol deall sut yr ydych yn ystyried hyn a'r rhyng-gysylltiadau rhwng eich amcanion a'ch camau? Gall hyn helpu i drwytho eich penderfyniadau am ba gamau a allai fod y mwyaf effeithiol a phwy allai fod angen ennyn eu hymgyfraniad.

Er enghraifft, a oes cyfleoedd ar gyfer integreiddiad rhwng y gwahanol gamau gweithredu a nodir o dan eich amcanion ar 'Plant a Phobl Ifanc', 'Pobl Hŷn' ac 'Oedolion sy'n Agored i Niwed' ac 'Iechyd a Llesiant' a allai o bosibl gydgyssylltu a chefnogi ei gilydd? A oes cyfleoedd ar gyfer integreiddio ar eich cam i fynd i'r afael ag unigrwydd a'r camau yr ydych yn eu cynnig mewn mannau eraill ar ymagweddau ataliol, cynyddu lefelau ymgysylltiad dinasyddion, plant a phobl ifanc, pobl hŷn, gweithgarwch corfforol a chynyddu nifer siaradwyr Cymraeg?

Mae archwilio sut y gellir ymgorffori'r pedwar dimensiwn llesiant neu eu defnyddio i gefnogi eich blaenoriaethau yn ddefnyddiol ar gyfer deall sut, er enghraifft, y gellir defnyddio rôl diwylliant neu'r amgylchedd naturiol i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd yn eich ardal.

O'r wybodaeth a rennir, byddai hefyd yn ddefnyddiol deall pa gamau arfaethedig sy'n ymrwymadau newydd a ddatblygir ar y cyd drwy'r BGC, a pha gamau a allai fod yn weithredu sy'n bodoli eisoes y gallai aelod-sefydliadau eu harwain beth bynnag, ar wahân i'r BGC? Nid yw hyn yn gwbl glir o'r wybodaeth a rennir. Bydd hefyd yn bwysig nodi'r gweithgarwch sy'n mynd rhagddo ar draws y sefydliadau partner i ddeall y cyfraniad y gallent fod eisoes yn ei wneud i'ch amcanion a'ch camau arfaethedig, a sut y gall y bydd angen addasu hyn i helpu eich BGC i ysgogi newid yn ei ardal.

Mae'r ['Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol'](#) yn adnodd defnyddiol ar gyfer ystyried ymhellach y modd y gallwch sicrhau bod y gweithredu yr ydych yn ei gynnig yn integredig.

### **Meddwl, cynllunio a gweithredu ar gyfer yr hirdymor.**

Yn ein cyfarfod cychwynnol, gwnaethoch drafod yr her a wynebir wrth gynllunio a gweithredu ar gyfer yr hirdymor pan fo heriau mor arwyddocaol yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus yn y presennol.

Er ei bod yn ddealladwy, rydym yn pwysleisio pwysigrwydd BGCau yn eu harchiwilad a'u datblygiad o atebion tymor hwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol, ac yn lliniaru effeithiau yn eich cymunedau. Fel y dywed y canllawiau statudol ar gyfer BGCau (SPSF3) *'Dylid sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cyflawni yn y tymor byr a gwneud hynny yng nghyd-destun blaenoriaethau ar gyfer yr hirdymor.'*

Rydym ni'n annog pob BGC i gael gweledigaeth glir, hirdymor yr ydych chi gyda'ch gilydd yn ceisio ei llunio a gweithio tuag ati. Gall hyn eich helpu i fframio eich amcanion a'ch camau yn well a darparu llinell olwg i'ch blaenoriaethau. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o waith sefydliadau eraill yn eich ardal (a BGC) sy'n ceisio deall y darlun tymor hwy yn well. Er enghraifft, [rhaglen Natur a Ni Cyfoeth Naturiol Cymru](#) ar ddyfodol amgylchedd cenedlaethol Cymru (2050).

O'n gwaith gyda BGCau ledled Cymru, rydym wedi cydnabod bod y rhai sy'n sefydlu ffordd gydgyhyrchiol o weithio gyda chymunedau hefyd yn cael sgysiau o ansawdd da am y tymor hwy. I roi un enghraifft, cynhaliodd BGC Cwm Taf Morgannwg ymarfer yn ymwneud â'r dyfodol gyda phobl ifanc i'w helpu i ddatblygu eu hasesiad llesiant. Tra bod hyn yn cynrychioli cam cymharol fach i'r BGC yn gyffredinol, cafodd y cyfranogwyr eu tywys ar daith trwy amrywiol ddulliau gweithredu gan ddechrau gyda "*breuddwydion mawr*" a datblygu "*hadau newid*" cadarnhaol i "*sbarduno sgysiau cadarnhaol ac egniol am ddyfodol cadarnhaol*" y gellir adeiladu arnynt.

Wrth i chi gwblhau eich asesiad llesiant eich hun ym mis Mai 2022, fe wnaethoch chi rannu gyda ni adroddiad '*Caerdydd Yfory: adroddiad ar effaith tueddiadau rhagamcanol yng Nghaerdydd*'. Byddai'n ddefnyddiol deall sut mae hyn wedi'i ystyried mewn perthynas â'ch cynllun llesiant drafft? Er enghraifft, mae'n amlgu'r newidiadau arwyddocaol i amcanestyniadau poblogaeth Caerdydd lle, yn lle poblogaeth ragamcanol o 444,668 yn 2039 (ffigurau 2014), rhagwelir y bydd poblogaeth Caerdydd bellach tua 386,225 yn 2039. Tra bo rhagamcanion yn ansicr, mae hyn yn cynrychioli gwahaniaeth sylweddol gyda goblygiadau posibl i'r cynllunio a'r camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd.

Tra'i bod yn wych gweld rhai o'r camau a pheth o'r gweithredu a gynigir yn eich cynllun drafft, mae'n ymddangos bod geiriad rhai camau yn canolbwyntio'n bennaf ar y presennol. Er enghraifft, mae'n galonogol gweld y cam arfaethedig i '*Barhau i arwain ymateb partneriaeth i Covid-19*' ond a oes cyfleoedd i ystyried beth allai'r uchelgais fod yn y tymor canolig i'r hirdymor? Ac, a fedrai'r cam arfaethedig ganolbwyntio mwy ar y dyfodol mewn perthynas ag adferiad a pharatoad ar gyfer unrhyw fygythiadau posibl yn y dyfodol, yn seiliedig ar yr hyn y mae partneriaid wedi'i ddysgu ers 2020?

Gall gosod amserlenni gwahanol o fewn y cynllun fod yn ffordd ddefnyddiol o fod yn gliriach wrth son am y camau gweithredu a'r canlyniadau yr ydych yn ceisio'u cyflawni yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Er enghraifft, efallai y byddwch yn canolbwyntio ar gamau penodol am gyfnod cyfyngedig, y gellir eu hehangu os bydd gwerthusiad yn ystyried bod cynnydd yn cael ei wneud. Yn un modd, os nad oes cynnydd yn cael ei wneud, gallwch archwilio'r rhesymau am hyn ac unrhyw rwystrau neu densiynau a allai fodoli, ac unrhyw gamau y gallwch eu cymryd i'w dileu. Trwy ein sgysiau gyda BGCau eraill, rydym yn gweld rhai yn mabwysiadu'r ymagwedd hon.

Os ydych yn gweld 'hirdymor' yn faes heriol, byddem yn eich annog i fyfyrion ar hyn yn eich cynllun terfynol ac/neu gyda'n swyddfa yn uniongyrchol. Byddai hyn yn ddefnyddiol i'n swyddfa, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill wrth i ni barhau i gydweithio i helpu i ganfod dulliau y gallwn eu defnyddio i gefnogi BGCau (a chyrrff cyhoeddus) yng nghyd-destun y dyfodol a rhagwelediad dros y 5 mlynedd nesaf.

### **Atal**

Mae'n amlwg faint o ddefnydd a wnaed o'r term 'atal', a pha mor aml y cyfeiriwyd ato yn ein sgysiau diweddar gyda BGCau ac mae'n galonogol gweld bod ffocws cryf arno o fewn eich blaenoriaethau.

Rydym eisieu gweld BGCau yn archwilio'r modd y maent yn torri cylchoedd ac yn cloddio'n ddyfnach i ddata i ddeall yn well achosion ac effeithiau materion a thueddiadau allweddol er mwyn trwytho'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd. Bydd bod yn glir ynghylch achosion sydd wrth wraidd problemau, yn hytrach na'r symptomau, yn eich helpu i ganfod beth yw'r mesurau ataliol mwyaf effeithiol a phryd a ble i ymyrryd.

Rydym yn gwerthfawrogi efallai nad ydych yn gwybod beth fydd y darlun llawn eto, ond dylai eich asesiad llesiant a gyhoeddwyd yn ddiweddar fod yn helpu eich BGC i ddeall yr hyn yr ydych yn ceisio ei atal. Os nad ydyw, rydym yn argymhell eich bod yn nodi pa wybodaeth neu ddata arall y gallai fod ei angen arnoch i helpu i gyflawni hyn. Er gwybodaeth, rydym wedi cynnwys isod ddiffiniad defnyddiol o'r gwahanol fathau o atal:

- **Atal sylfaenol:** Meithrin cydnherthedd – creu'r amodau lle na fydd problemau'n codi yn y dyfodol. Ymagwedd gyffredinol.
- **Atal eilaidd:** Targedu gweithredu tuag at feysydd lle mae risg uchel o broblem. Ymagwedd wedi'i thargedu, sy'n cadarnhau egwyddorion cyffredinoliaeth flaengar.
- **Atal trydyddol:** Ymyrryd unwaith y bydd problem, i'w hatal rhag gwaethygu a'i hatal rhag digwydd eto yn y dyfodol. Ymagwedd ymyriad.
- **Gwariant aciwt:** Gwariant, sy'n gweithredu i reoli effaith sefyllfa negyddol iawn ond nad yw'n gwneud fawr ddim, neu ddim o gwbl, i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Ymagwedd adferol.

## Ymgyfraniad

Yn ein hadborth i'ch asesiad llesiant drafft (Chwefror 2022), gwnaethom amlygu ei fod yn dibynnu'n helaeth ar ddata meintiol, ond yn llai amlwg oedd cynnwys gwybodaeth ansoddol (fel barn a phrofiadau preswylwyr). Mae'n arbennig o gadarnhaol felly i weld y cam arfaethedig i '*Gynyddu lefelau ymgysylltiad dinasyddion yn y broses benderfynu, yn enwedig gan grwpiau a phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio'n ddinesig, gan archwilio ymagwedd ar y cyd tuag at ymysylltiad dinasyddion, a dulliau o ymgynghori â hwynt*'.

Er mwyn helpu eich BGC i hwyluso sgysiau am lesiant, rydym yn eich atgoffa bod symud tuag at ffordd fwy cydgynhyrchiol o weithio'n cael ei ystyried fel arfer da a gall [Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru](#) eich helpu i ddatblygu eich ymarfer a'ch dealltwriaeth yn y maes hwn.

Mae ymarfer ymgyfrannu a chydgyhyrchu yn ddulliau o weithio sy'n gofyn am sgiliau penodol ac mae'n hanfodol bod amser ac adnoddau'n cael eu buddsoddi i helpu staff i ddatblygu'r sgiliau hyn. Mae cyrchu hyfforddiant a'r cymorth angenrheidiol ar y cyd yn fuddiol o ran ymrwymiad a chost. Os nad yw hyn y digwydd eisoes, rydym yn annog eich BGC i fuddsoddi mewn ymuno â fforymau rhanbarthol a chenedlaethol i rannu arfer, gweithio trwy heriau mewn partneriaeth â BGCau eraill ac i ddysgu oddi wrth eich gilydd.

Ar lefel gwneud penderfyniadau, anogir eich BGC i ganfod lle gellid darganfod cyfleoedd arwyddocaol i newid dulliau o weithio mewn modd a fydd yn ennyn ymgyfraniad pobl Caerdydd yn barhaus, a manteision posibl yn deillio o wneud hynny.

Trwy sgysiau, mae llawer o FGCau wedi lleisio pryderon bod yr amserlenni ar gyfer y broses cynllunio llesiant yn dynn. Fodd bynnag, mae ymgyfraniad cryf a chyd-gynhyrchu i raddau helaeth yn helpu i liniaru'r pwysau a brofwyd mewn blwyddyn y mae cynnyrch cynllunio llesiant statudol i fod i ddigwydd. Ac mae sgysiau parhaus gyda'ch cymunedau yn hollbwysig, sy'n golygu ennyn ymgyfraniad pobl drwy gydol y pum mlynedd nesaf o gyflawni'r cynllun llesiant, nid yn unig yn ystod ei ddatblygiad.

Mae'r [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru](#) yn gyfres o ddeg egwyddor ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau. Nod yr egwyddorion yw dangos y dulliau gorau o ymgysylltu er mwyn sicrhau ei fod o ansawdd da, yn agored ac yn gyson. Anogir pob BGC i fabwysiadu'r egwyddorion hyn.

Mae arfer ymgyfrannu da yn golygu mynd yn ôl at yr un unigolion, grwpiau a chymunedau a chyfleu sut mae eu cyfraniad wedi gwneud gwahaniaeth, ynghyd â'r camau nesaf a chyfleoedd i ymgyfrannu yn y dyfodol. Yn y pen draw, anogir BGCau i edrych ar atebion i'r her o gael darlun 'byw' o lesiant lleol a rhanbarthol, h.y. archwilio a datblygu mecanweithiau i sicrhau, bob tro y cynhelir sgwrs gymunedol, bod yna ffordd o ddefnyddio'r allbynnau i drwytho cynllunio llesiant a darpariaeth BGC.

## Sylwadau eraill

- **Mynd i'r afael ag argyfwng hinsawdd a natur**

Ar 22<sup>ain</sup> Awst 2022, fe wnaethom rannu papur byr Cyfoeth Naturiol Cymru ar y camau gweithredu posibl a'r camau y gall BGCau eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Paratowyd y papur defnyddiol hwn i'n swyddfa ei rannu â BGCau, ac mae eich cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru lleol yn ymwybodol o'r gwaith a'r camau gweithredu a nodir ynddo.

- **Argymhellion Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (2020)**

Mae'r canllawiau statudol ar gyfer BGCau yn nodi '*wrth bennu ei amcanion lleol rhaid i fwrdd hefyd ystyried yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol diweddaraf.*' Fel yr ydym wedi'i drafod, ochr yn ochr â'n hymateb terfynol mae yna atodiad sy'n cynnwys argymhellion o'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020. Dylech sicrhau eich bod yn ystyried y rhain mewn perthynas â'ch camau arfaethedig.

- **Bioamrywiaeth**

Tra bo'r cam seilwaith gwyrdd yn cynnwys geiriad sy'n ceisio gwella bioamrywiaeth, nid yw natur yn nodwedd arbennig o amlwg yn amcan G nac ar draws unrhyw un o'r amcanion eraill. Rydym yn eich annog i ystyried hyn ymhellach ac yn eich cyfeirio at yr argymhellion (polisi a phroses) a nodir ym mhennod 'Cymru Gydnerth' yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020.

- **Bargeinion twf rhanbarthol, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, a rhwydweithiau eraill**

Yn ein cyfarfod ar 8<sup>fed</sup> Awst, gwnaethom nodi eich sylw y bydd ôl-osod tai yn digwydd yng ngofod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Tra bod yna duedd i rannu rhai materion mewn adrannau a/neu droi at rwydweithiau eraill megis gyda bargeinion twf rhanbarthol, mae'n bwysig i'r BGC gydnabod y gallant ddylanwadu ar a thrwytho rhai meysydd gwaith mewn dull allweddol, o gadw mewn golwg eu hystyriaeth a'u ffocws ar draws y pedwar dimensiwn llesiant.

Yn y papur a baratowyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (gweler uchod), maent yn argymhell bod BGCau yn creu cysylltiadau cliriach â'u fframweithiau twf a'u fframweithiau [economaidd rhanbarthol](#) ar draws ystod o feysydd fel ynni, yr economi a sgiliau, ac yn ymroi i ddylanwadu ar y partneriaethau hyn i fabwysiadu ymagwedd fwy 'cynhwysol' tuag at fesur llwyddiant economaidd er mwyn helpu i leihau'r pwysau economaidd-gymdeithasol cynyddol ar fioamrywiaeth.

- **Cynghorau Tref a Chymuned**

Tra nad yw hyn wedi codi yn ystod y sgwrsiau, rydym yn eich atgoffa bod y canllawiau statudol (SPSF3) yn nodi bod yn rhaid i FGCau sicrhau bod Cynghorau Tref a Chymuned (sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y Ddeddf) yn cymryd rhan lawn yn y broses o ganfod amcanion lleol, o gadw mewn golwg y bydd yn ofynnol iddynt gymryd pob cam rhesymol

tuag at gyflawni'r amcanion lleol hynny. Gall Cyngorau Tref a Chymuned hefyd fod yn fecanwaith defnyddiol ar gyfer ymgyfraniad lleol a chydweithredu.

- **Cynnydd ers 2017**

Byddai'n ddefnyddiol deall a oes gan y BGC ymdeimlad o sut mae'r cynllunio ar y cyd a'r camau gweithredu yr ydych yn eu cymryd nawr yn wahanol i'ch cynllun llesiant cyntaf (2017). Rydym yn annog BGCau i gynnwys myfyrdod byr ar hyn yn eu cynlluniau llesiant.

- **Iaith a therminoleg**

Parthed eich ymgynghoriad cyhoeddus, gallai fod yn werth ystyried pa mor hygyrch yw'r geiriad a therminoleg rhai o'ch camau arfaethedig.

## Crynodeb o weithgaredd rhwng BGC Caerdydd a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (SCCDC) yn ystod y cyfnod ymgynghori 14

Isod wele gofnod o'r ohebiaeth yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol:

Dyddiad	Gweithgaredd	Sylwadau
17 <sup>eg</sup> Mehefin 2022	Ebost oddi wrth Gaerdydd i gyfarfod a thrafod cynlluniau Caerdydd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sbardunwyd ymgynghoriad Caerdydd gyda SCCDC o'r dyddiad hwn.</li> </ul>
20 <sup>fed</sup> Mehefin 2022	Cyfarfod cyntaf rhwng Caerdydd a SCCDC.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarfod cyntaf cadarnhaol.</li> <li>• Cytunwyd ar amserlenni a phwyntiau cyswllt.</li> <li>• Diweddariad oddi wrth Gaerdydd ar syniadau a meddyliau am amcanion a chymau.</li> <li>• Rhannwyd rhai o ddisgwyliadau SCCDC.</li> <li>• Cytunodd Caerdydd i rannu papurau a gwybodaeth berthnasol.</li> <li>• Croesawyd deialog barhaus a chytunwyd i gyfarfod eto.</li> </ul>
21 <sup>ain</sup> Gorffennaf 2022	Ebost oddi wrth Gaerdydd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am weithio mewn partneriaeth, mapio a manylion gweithdai	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Amlygodd gwybodaeth raddfa a chymhlethdod y dirwedd bartneriaeth gyfredol.</li> <li>• Gweithio ar flaenoriaethau ac amcanion a fydd yn cael eu rhannu gyda ni ar ôl iddynt gael eu datblygu.</li> <li>• Croesawyd y cyfle i gwrdd wyneb yn wyneb cyn bo hir.</li> </ul>
8 <sup>fed</sup> Awst 2022	Ail gyfarfod rhwng Caerdydd a SCCDC	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparodd Caerdydd ddiweddariad ar gynnydd.</li> <li>• Trafodwyd blaenoriaethu (amcanion/camau) ac roedd ffocws y drafodaeth ar 'sut', h.y. y dulliau o weithio.</li> <li>• Cytunwyd i gwrdd ym mis Medi, cyn i SCCDC ddarparu ymateb.</li> </ul>
8 <sup>fed</sup> Awst 2022	Ebost oddi wrth SCCDC	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadarnhau'r dyddiad y bydd SCCDC yn rhannu adborth cychwynnol, dyddiad ar gyfer y trydydd cyfarfod (15<sup>fed</sup> Medi) a dyddiad ymateb terfynol (23<sup>ain</sup> Medi).</li> </ul>

22 <sup>ain</sup> Awst 2022	Ebost oddi wrth SCCDC	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhannu papur Cyfoeth Naturiol Cymru ar y gweithredu arfaethedig y gall BGCau ei gyflawni i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.</li> </ul>
1 <sup>af</sup> Medi 2022	Ebost oddi wrth SCCDC	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhannwyd â Chaerdydd gyngor drafft SCCDC.</li> </ul>
15 <sup>fed</sup> Medi 2022	Y trydydd cyfarfod rhwng Caerdydd a SCCDC	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caerdydd yn darparu diweddariad.</li> <li>• Trafodwyd cyngor drafft SCCDC</li> </ul>
21 <sup>ain</sup> Medi 2022	Ebost oddi wrth SCCDC	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddwyd cyngor ffurfiol oddi wrth SCCDC.</li> </ul>

## Atodiad 1

### Crynodeb o argymhellion yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020

Mae'r canllaw statudol ar gyfer BGCau (SPSF3) yn dweud 'Wrth bennu ei amcanion lleol, rhaid i fwrdd hefyd ystyried yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol diweddaraf a baratowyd gan y Comisiynydd. Bydd hwn yn rhoi asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn gosod a bodloni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.'

Gyda hyn mewn olwg, gweler isod rhestr o argymhellion yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 sydd wedi'i anelu at gyrff cyhoeddus a BGCau, yn erbyn pob un o'r nodau llesiant a'r pynciau a archwiliwyd yn yr adroddiad.

Mae hon yn rhestr faith i'w hystyried, ond rydyn yn rhannu gyda'r bwriad o fod yn adnodd defnyddiol ac yn ffynhonnell gyfeirio/sicrwydd i gyrff cyhoeddus a BGCau wrth i chi ddatblygu eich amcanion a'ch camau llesiant.

### Pennod 2: Arweinyddiaeth a Gweithrediad y Ddeddf (cyrff cyhoeddus a BGCau)

Wrth osod eu hamcanion dylai cyrff cyhoeddus a BGCau:

- Ymgymryd ag ymarferion sganio gorwel i feddwl, cynllunio ac adnoddau ar gyfer y dyfodol hirdymor gydag eraill mewn cydweithrediad - y sector cyhoeddus, preifat, gwirfoddol ac aelodau o'u cymuned. Dylai Llywodraeth Cymru helpu trwy sefydlu adnodd wedi'i dargedu i helpu cyrff cyhoeddus i adeiladu gallu mewn technegau meddwl, cynllunio a dyfodol hirdymor.
- Defnyddio ran gyntaf y 'prawf dwbl' i nodi 'beth' y dylent ei wneud i gynyddu cyfraniadau at y nodau llesiant i'r eithaf.
- Gosod gweledigaeth hirdymor. Ystyriwch sut olwg sydd ar lwyddiant i'r amcan hwnnw mewn pump, deg, pymtheg a phum mlynedd ar hugain; a nodi cerrig milltir a mesurau priodol - gan ystyried y cerrig milltir cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Symud tuag at gynnwys pobl yn well trwy gydol y broses benderfynu o ddiffinio problem i gyflawni a gwerthuso, gan fod yn agored i newid go iawn o ganlyniad. Dylai Llywodraeth Cymru helpu trwy gynnal adolygiad o ganllawiau statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i ymgorffori mecanwaith penodol i'r cyhoedd fod yn rhan o waith cyrff cyhoeddus - dysgu o Ddeddf Grymuso Cymuned yr Alban.

Wrth osod eu camau dylai cyrff cyhoeddus a BGCau canolbwyntio ar y meysydd hyn:

- Profi bopeth a wnânt yn ôl 'prawf dwbl' y Ddeddf o'r "beth" a'r "sut".
- Cydweithio ag eraill a chynnwys pobl i ddod o hyd i'r problemau y mae angen iddynt eu hatal, gan ddeall a ydynt yn dod o dan atal sylfaenol, eilaidd neu drydyddol; defnyddio tystiolaeth i nodi'r ymyriadau ataliol gorau posibl sy'n sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at eu hamcanion.
- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrff cyhoeddus fod yn chwilio am ffyrdd o gydweithio'n fwy effeithiol ac integreiddio eu gwaith gydag eraill, fel cynghorau tref a chymuned a chyrff cyhoeddus cenedlaethol; ac yn dosbarthu cyfleoedd gydag eraill megis landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, y sector preifat, cynrychiolwyr undebau llafur ac addysg bellach ac uwch wrth gyflawni eu hamcanion a'u camau llesiant.
- Nodi camau llawer cliriach i gyflawni eu hamcanion llesiant - gan adlewyrchu pa gyfraniad y bydd pob adran yn ei gymryd i'r camau hyn.
- Alinio cynllunio a phenderfyniadau ariannol yn glir ar draws y saith maes newid corfforaethol â chyflawni eu hamcanion llesiant. Dylai'r weledigaeth a ddarperir gan amcanion llesiant



ddarparu cynllun cyllido hirdymor a dylai cynlluniau corfforaethol / datganiadau llesiant nodi sut y bydd cynlluniau gwariant yn ceisio cyllido eu camau.

- Darparu tystiolaeth yn eu datganiadau/cynlluniau/cynlluniau corfforaethol llesiant ac adroddiadau blynyddol ar sut mae cymhwyso'r Ddeddf i feysydd newid corfforaethol yn llywio'r camau y maent yn eu cymryd i gynyddu eu cyfraniad at y nodau i'r eithaf.
- Sicrhau eu bod yn symud y tu hwnt i ymarferion ar bapur, cynyddu dealltwriaeth staff a darparu her adeiladol i ddangos sut y cymhwyswyd y Pum Ffordd o Weithio, yn benodol sut y gellir gwneud y mwyaf o nodau ac amcanion cyfrannu.
- Cynnwys her gan adrannau, arbenigwyr a rhanddeiliaid eraill yn eu prosesau gwneud penderfyniadau mewnol.
- Datblygu eu canolfan a'u prosesau corfforaethol yn unol â gofynion y Ddeddf, ond hefyd annog arloesi a newid diwylliant. Dylai pob corff cyhoeddus fod yn defnyddio ac yn dangos defnydd o adnoddau fel Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol, a ddyluniwyd i helpu cyrff cyhoeddus i ystyried eu cynnig neu eu penderfyniadau yng nghyd-destun y Ddeddf - gweld adnoddau.
- Mabwysiadu'r diffiniad o gamau atal a gwariant ataliol a dyrannu gwariant yn unol â hynny o fewn cynllunio ariannol a rheoli risg.

Wrth gefnogi newid diwylliannol, dylai cyrff cyhoeddus a byrddau:

- Gan ddechrau gyda Llywodraeth Cymru, mabwysiadu model o gyllidebau llesiant. Er bod ein deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol inni edrych ar y gyllideb gyfan, lle cadarnhaol i ddechrau'r trawsnewid hwn fyddai gydag 'arian newydd'.
- Galfaneiddio ymdrechion ac adeiladu symudiad o newid gan roi lles a charedigrwydd yng nghanol polisi cyhoeddus.
- Cynnwys eu gweithlu wrth gyflawni eu hamcanion llesiant; dechrau gyda'u gweithredoedd eu hunain, eu timau, adrannau a sefydliadau cyfan; i gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol.
- Rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod staff yn deall sut a pham y dylid cymhwyso'r Ddeddf.
- Cefnogi cyfleoedd i gydweithio, ail staffio i sefydliadau eraill a gwneud penodiadau ar y cyd.
- Gweithredu i arallgyfeirio eu gweithlu a rhoi trefniadau ar waith i dynnu ar eu profiadau byw. (Am fwy o fanylion gweler argymhellion ym Mhennod 2 i Lywodraeth Cymru ar y 'Real Life Fast Track').
- Sicrhau bod pwyllgorau craffu, byrddau, a Phwyllgorau Archwilio a Risg wedi derbyn hyfforddiant ar y Ddeddf ac yn defnyddio'r Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Craffu - gweler adnoddau.
- Dylai cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sicrhau bod ganddynt fecanweithiau ar waith i gynnwys plant a phobl ifanc yn eu prosesau gwneud penderfyniadau.
- Yn yr un modd ag y mae cyrff cyhoeddus yn ceisio penodi pobl ag arbenigedd ar gyllid, risg, llywodraethu ac adnoddau dynol; dylid gwneud nifer briodol (o leiaf un ar gyfer pob bwrdd) o benodiadau cyhoeddus lle mae arbenigedd penodol a dealltwriaeth fanwl o anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn ofyniad penodol.
- Dylai cyrff cyhoeddus fod yn ddewr wrth alw ymddygiad allan mewn amgylchedd partneriaeth nad yw'n ymgorffori'r Pum Ffordd o Weithio; a dylai gael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru ac asiantaethau priodol eraill i fynd i'r afael â hyn.

## Pennod 2: Caffael

Wrth osod eu hamcanion dylai cyrff cyhoeddus a BGCau:

- Cynnwys adrannau a sefydliadau sy'n cael eu heffeithio gan y broses gaffael wrth osod amcanion llesiant (e.e. comisiynu, rheoli contractau, cyflenwyr a rheoli gwastraff). Gallai hyn

arwain at gyrff cyhoeddus yn deall y buddion a'r camau ehangach y gallant eu cymryd i wella pob agwedd ar lesiant trwy gaffael.

Wrth osod eu camau dylai cyrff cyhoeddus a BGCau canolbwyntio ar y meysydd hyn:

- Darparu tystiolaeth am y cyfraniad y mae caffael yn ei wneud i gyflawni amcanion llesiant.
- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus flaenoriaethu sut y gallant gydweithredu a defnyddio eu gwariant i gynyddu gwerth cymdeithasol i'r eithaf, cyfrannu at eu hamcanion llesiant, a gwella llesiant ar lefel leol.

Wrth brofi a dangos sut maen nhw'n cymhwyso'r Ddeddf, dylai'r holl gyrff a byrddau cyhoeddus a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru):

- Ymdrin â phob penderfyniad caffael trwy lens y Ddeddf - trwy gymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio, ystyried eu hamcanion llesiant a/neu gamau a sut i wneud y mwyaf o gyfraniad i'r saith nod llesiant ar ddechrau'r broses hyd yn oed yn cam cyn caffael.
- Darparu tystiolaeth glir ar gyfer sut mae eu gweithgareddau caffael yn cefnogi cyflawni eu hamcanion llesiant.
- Cynnwys cymalau contract penodol sy'n gysylltiedig ag amcanion/nodau llesiant ym mhob contract a fframwaith sector cyhoeddus, gan ddefnyddio mesurau gwerth cymdeithasol i ddal effaith.

Wrth gefnogi newid diwylliannol, dylai'r holl gyrff a byrddau cyhoeddus a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru):

- Casglu a crynhoi gwersi a ddysgwyd yn seiliedig ar ganlyniadau'r fframweithiau cyfredol i sicrhau bod cyfleoedd i wreiddio'r Ddeddf yn cael eu cynyddu i'r eithaf yn y dyfodol.

Fel rhan o mesur cynydd, dylai'r holl gyrff a byrddau cyhoeddus a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru):

- Adolygu eu dull a'u gweithgareddau caffael i nodi cyfleoedd i wneud y mwyaf o effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol penderfyniadau gwariant.

### **Pennod 3: Nodau Llesiant Cymru**

#### **Cymru Lewyrchus**

Wrth osod eu hamcanion dylai cyrff cyhoeddus a BGCau:

- Arddangos y cysylltiadau rhwng eu hamcanion llesiant a chamau ar ffyniant, a meysydd eraill fel yr amgylchedd naturiol, gwaith teg, caffael, iechyd a llesiant a sgiliau mewn ffordd ystyrlon.
- Nodi yn glir sut rydych chi'n deall diffiniad y nod: 'Cymru Lewyrchus'.
- Alinio eu gweithredoedd ac adrodd ar y nod hwn â'u hymrwymiad o dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, er mwyn sicrhau bod eu hamcanion llesiant yn mynd i'r afael ag anfanteision economaidd-gymdeithasol.
- Cyflymu eu gweithredoedd ar leihau allyriadau, gan helpu i gyrraedd targed Cymru o sector cyhoeddus carbon-niwtral erbyn 2030. Mae hyn yn golygu mapio'r ardaloedd y mae ganddynt reolaeth drostynt ac sydd â'r allyriadau mwyaf - gan sicrhau bod ganddynt gynllun ar waith i'w lleihau. Dylai'r meysydd ffocws ar unwaith gynnwys lleihau carbon trwy gaffael, cerbydau allyriadau ultra-isel (fflyd), adeiladau, dadgyfeirio tanwydd ffosil, datgarboneiddio gwres, trafndiaeth a thwristiaeth. (Hefyd argymhelliad yn yr adran ar Datgarboneiddio ym Mhennod 5.)

Wrth osod eu camau dylai cyrff cyhoeddus a BGCau canolbwyntio ar y meysydd hyn:

- Gweithredu arferion gwaith teg trwy gyflogaeth a gwasanaethau.
- Galluogi cymdeithas carbon isel trwy leihau allyriadau a chefnogi ynni cymunedol.
- Gweithio gydag eraill i gefnogi datblygiad sgiliau ar gyfer y dyfodol.
- Caffael nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cefnogi lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor.
- Cefnogi'r economi sylfaenol trwy gynhyrchu cyfoeth a darparu cyflogaeth.
- Defnyddiwch adnoddau'n effeithlon, gan gydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang.

Yn eu gweithredoedd o ddydd i ddydd dylent ddechrau:

- Cymryd camau i ddod yn gyflogwyr 'Gwaith Teg Cymru', gan ddangos sut maen nhw'n ymgorffori 'gwaith teg' trwy eu hamcanion llesiant ac yn ymarferol, a gwario arian gyda sefydliadau sy'n cyflawni diffiniad a nodweddion gwaith teg, addas, ac sy'n hyrwyddo cynwysoldeb a chydardoldeb.
- Gwneud y cysylltiadau rhwng cefnogi economïau lleol a ffyniant, a sut mae hyn hefyd yn cysylltu â chefnogi caffael teg, lleol, sgiliau, deunyddiau lleol, ac effeithlonrwydd adnoddau.
- Cyflymu eu gweithredoedd ar leihau allyriadau, helpu i gyrraedd targed Cymru o sector cyhoeddus carbon-niwtral erbyn 2030. Mae hyn yn golygu mapio'r ardaloedd y mae gennych reolaeth drostynt ac sydd â'r allyriadau mwyaf - gan sicrhau bod ganddynt gynllun ar waith i'w lleihau.
- Mabwysiadu targedau atgyweirio ac ailddefnyddio i gymell economi gylchol dros ailgylchu. Cefnogi a buddsoddi mewn sgiliau ac atgyweirio caffis, gan gynnwys caniatáu i bobl fenthyg eitemau ac offer cartref.
- Monitro cymalau cymdeithasol ac amgylcheddol mewn contractau, er enghraifft, buddion cymunedol.
- Mae sicrhau bod bargeinion twf a dinasoedd rhanbarthol Cymru yn dangos sut mae eu buddsoddiadau yn lleihau allyriadau carbon yn gyffredinol, nid yn unig mewn prosiectau dethol, ac yn cyfrannu tuag at yr amcanion llesiant ar gyfer eu hardal.
- Gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi mentrau lleol ar stiwardiaeth tir ac ynni adnewyddadwy, i helpu Cymru i drosglwyddo i gymdeithas carbon isel a dod ag ystod eang o fuddion i gymunedau lleol.
- Archwilio a dangos sut maen nhw'n ceisio symud i system lle gellir defnyddio cynhyrchion eto i greu gwerth pellach (egwyddorion yr economi gylchol), a sut mae hyn yn gysylltiedig â meysydd eraill fel datblygu sgiliau, arloesi, yr amgylchedd naturiol, deunyddiau lleol ac arbed arian.
- Cefnogi busnesau a darparwyr lleol lle bo hynny'n bosibl.
- Ymgymryd a cynnwys ystyrion â busnesau lleol wrth ddatblygu cynlluniau economaidd lleol.
- Arwain trwy esiampl trwy ddod yn gyflogwyr 'Gwaith Teg Cymru', ymgorffori 'gwaith teg' trwy eu hamcanion llesiant ac yn ymarferol, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, bylchau cyflog a chontractau dim oriau.

### **Cymru Gydnerth**

Wrth osod eu hamcanion dylai cyrff cyhoeddus a BGCau:

- Dangos yn glir y cysylltiadau rhwng eu hamcanion llesiant a chamau ar yr amgylchedd, a meysydd eraill e.e. profiadau niweidiol plentyndod, iechyd a chydlyniant cymunedol.
- Nodi yn glir sut rydych chi'n deall diffiniad y nod 'Cymru Gydnerth'.
- Alinio eu gweithredoedd ac adrodd ar y nod hwn â'u hymrwymiad o dan adran 6 dyletswydd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Wrth osod eu camau dylai cyrff cyhoeddus a BGCau canolbwyntio ar y meysydd hyn:

- Datgan argyfwng natur a hinsawdd a chyflymu graddfa a chyflymder y newid yn gyflym i helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn.
- Ceisio cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol trwy reoli tir a môr yn briodol i greu ecosystemau bioamrywiol sy'n gweithredu'n iach ac annog eraill i wneud yr un peth.
- Buddsoddi yn y rôl bwysig y mae gofod gwyrdd a glas bioamrywiol yn ei chwarae wrth gefnogi iechyd a lles pobl.
- Datblygu eich gwybodaeth am natur a chynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredu iach, a pharatoi pobl â sgiliau sy'n addas ar gyfer y dyfodol.
- Ceisio gwella ansawdd dŵr ac aer, gan wneud yr amgylchedd yn iachach i fywyd gwyllt a phobl.
- Defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy - addasu i amgylchedd sy'n esblygu.

Yn eu gweithredoedd o ddydd i ddydd dylent ddechrau:

- Cyflawni cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y seilwaith gwyrdd a glas bioamrywiol a gorchudd canopi coed yn eu hardaloedd a'u tir.
